

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig

Cyd-destun

1. Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn nifer o bolisiau a rhaglenni i hyrwyddo ffyniant ac atal a lliniaru tlodi. Er gwaethaf hyn, mae lefelau tlodi wedi aros yn gymharol ddigyfnewid yng Nghymru ers dros 15 mlynedd ac mae unrhyw gynnydd wedi bod yn heriol, yn enwedig mewn rhai o'n cymunedau ôl-ddiwydiannol. Nid yw mwy na degawd o gyni cyllidol gan Lywodraeth y DU wedi helpu yn hynny o beth ac mae toriadau lles wedi cyfyngu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ac wedi lleihau cyllidebau ac incwm gwario aelwydydd. Bydd effaith y pandemig ac yna'r argyfwng costau byw yn dwysáu'r heriau yn y cymunedau hyn. Er bod camau mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru ym maes tlodi wedi canolbwyntio ar liniaru effaith tlodi, bydd ymdrechion ehangach hefyd yn gofyn am feithrin y gallu i wrthsefyll tlodi yn y dyfodol.
2. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi uchelgeisiau clir i sicrhau Cymru fwy llewyrchus a mwy cyfartal a chanlyniadau gwell i bobl nawr ac yn y dyfodol. Mae trechu tlodi a'r anghydraddoldebau cysylltiedig wrth wraidd yr uchelgeisiau hyn. Fis Fawrth diwethaf, cychwynnodd y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sy'n gosod ymrwymiad statudol ar Weinidogion Cymru, a rhai cyrff cyhoeddus, i sicrhau bod eu penderfyniadau strategol yn ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pwysigrwydd byd chwaraeon

3. Mae byd chwaraeon yn hollbwysig i fywyd ein cenedl. Mae'n cael dylanwad pwerus ar ein hunaniaeth genedlaethol; mae'n ein huno'n genedl ac yn rhoi presenoldeb ar lwyfan y byd y mae eraill yn ei chwennych. Mae chwaraeon hefyd yn allweddol i'n hiechyd a'n llesiant fel cenedl, gyda'n gweledigaeth ar gyfer cenedl egnïol lle y gall pawb fwynhau chwaraeon drwy gydol oes.
4. Mae gan fyd chwaraeon gyfraniad pwysig i'w wneud i'n helpu i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu, gyda'i gyrhaeddiad a'i ddylanwad yn ymestyn y tu hwnt i'r ymrwymladau penodol i sicrhau mynediad cyfartal, gwella cyfranogiad ac adeiladu ar y cyfleusterau chwaraeon a ddarperir ledled y wlad. Mae gan chwaraeon rôl allweddol i'w chwaraeon yn y gwaith o gyflawni ein hymrwymladau i sicrhau cenedl fwy llewyrchus, gwyrddach ac iachach a chenedl fwy cyfartal.
5. Yn y cyd-destun hwn, bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Chwaraeon Cymru, yn parhau i arwain y sector ac yn annog cydweithio ag eraill er mwyn meithrin a hwyluso cynnydd mewn gweithgarwch corfforol ymhlith y boblogaeth a buddsoddi ymdrechion ac adnoddau lle y bo angen y rhain fwyaf; lle mae amrywiadau sylweddol mewn cyfranogiad a lle ceir diffyg cyfle neu uchelgais i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol.

Heriau sy'n wynebu byd chwaraeon a hamdden

6. Cydnabyddir yn gyffredinol werth chwaraeon i iechyd a'u gwerth cymdeithasol ac economaidd, a dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn chwaraeon drwy ei phŵer ataliol.
7. Mae anghydraddoldebau gweithgarwch chwaraeon yn ystod y cyfyngiadau symud wedi cael eu dangos yn glir gan astudiaethau olynol sydd wedi cael eu comisiynu gan Chwaraeon Cymru ers dechrau pandemig COVID-19. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, roedd pobl o gefndiroedd â statws economaidd-gymdeithasol is yn llawer mwy tebygol o ddweud bod lefelau eu gweithgarwch corfforol wedi gostwng. Yr hyn sy'n achosi'r pryder mwyaf yw bod 9% o bobl wedi dweud nad oedd eu plant yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch corfforol nac ymarfer corff ar ddiwrnod arferol ond bod hyn yn cynyddu i 14% ar gyfer plant o gefndiroedd â statws economaidd-gymdeithasol is.
8. Wrth inni droi at y broses o adfer yn sgil y pandemig, bydd ehangu ar y cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad i gefnogi ein hiechyd meddwl a'n hiechyd corfforol yn bwysicach nag erioed. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r pandemig eisoes yn cael eu gweld wrth i ymdrechion ganolbwyntio ar baratoi cyfleusterau, denu aelodau o'r newydd ac ennyn hyder defnyddwyr unwaith eto. Dyma rai o'r enghreifftiau sy'n effeithio ar incwm a roddwyd inni gan weithredwyr canolfannau hamdden ac ymddiriedolaethau sydd wedyn yn effeithio ar eu gallu i recriwtio a chadw staff i ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael cyn y pandemig.
9. Hefyd, mae'r argyfwng costau byw yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn fwy anodd byth gyda chostau ynni a chwyddiant yn effeithio ar allu teuluoedd i wario. Bydd yn effeithio ar y rhai mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy nag eraill fwy na thebyg a gwyddom fod grwpiau sy'n agored i niwed, megis rhieni sengl, plant ifanc, pobl anabl a grwpiau ethnig lleiafrifol, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi.
10. Gall cymryd rhan mewn chwaraeon fod yn heriol am lu o resymau, megis cost dillad a chyfarpar arbenigol, a chost teithio i gyfleusterau. Gwyddom o waith ymchwil y gall prinder cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol egnïol achosi anghydraddoldeb a diffyg cymhelliant, ac y gall lefelau gweithgarwch corfforol fod yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol yn seiliedig ar ymchwil ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

11. Yn ystod y pandemig, darparodd Llywodraeth Cymru £66.5m o gyllid i helpu'r sector chwaraeon a hamdden i fynd i'r afael ag effaith y cyfyngiadau angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys swm ychwanegol o £16.5m ar gyfer Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden i gefnogi sefydliadau cenedlaethol, clybiau chwaraeon lleol, ymddiriedolaethau hamdden a darparwyr annibynnol/hunangyflogedig, a £20.1m ar gyfer clybiau chwaraeon proffesiynol yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwyddiadau chwaraeon gael eu cynnal heb dorf. Nid oes unrhyw amheuaeth, heb y cymorth ariannol hwn, na fyddai'r sector wedi cael niwed anadferadwy a fyddai wedi cael effaith hirhoedlog ar iechyd a llesiant y genedl.

12. Caiff y rhan helaeth o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon ei sianelu drwy Chwaraeon Cymru, ein partner cyflawni ym maes chwaraeon. Disgwylir i Chwaraeon Cymru ddefnyddio'r cyllid hwn – a'r cyllid y mae'n ei gael drwy'r Loteri Genedlaethol – i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn ei lythyr cylch gwaith gan y Llywodraeth. Byddwn yn buddsoddi mwy na £75m dros y tair blynedd nesaf er mwyn i Chwaraeon Cymru gyflawni ei nodau a'i amcanion.
13. Wrth inni adfer yn sgil y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles llwyddiannus. Mae'r rhaglenni hyn wedi darparu gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol am ddim i blant a phobl ifanc 0-15 oed er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y pandemig. Drwy'r rhaglen Gaeaf Llawn Lles, buddsoddwyd mwy na £1m mewn sefydliadau chwaraeon er mwyn iddynt ddarparu gweithgareddau am ddim ledled Cymru. Maent yn cynnwys darpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol yr Urdd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle y ceir amddifadedd cymdeithasol, rhaglen Colegau Cymru i uwchsgilio myfyrwyr coleg i ddarparu chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol i'w cyfoedion ac i blant a phobl ifanc, a sesiynau blasu i blant ym maes Athletau, Chwaraeon Raced, Bowliau, Beicio a Chodi Pwysau drwy eu clybiau a'u hacademiau.
14. Mae cefnogi ein clybiau chwaraeon cymunedol ledled Cymru yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon ar y lefel elfit a'r lefel gymunedol, yn ogystal â buddsoddi yng nghyfleusterau chwaraeon ein gwlad fel y gallwn ddatgloi mwy o'n potensial fel cenedl. Os ydym am sicrhau manteision chwaraeon i bawb, o'r clybiau llawr gwlad i'r mabolgampwyr elfit, mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn hygyrch i bawb. Mae cyfleusterau modern, hygyrch a chynaliadwy yn hollbwysig i annog pobl i ddechrau, neu i aildechrau, cymryd rhan mewn chwaraeon. Rydym eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddi £24m o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf yn ein cyfleusterau chwaraeon, sy'n ychwanegol at y buddsoddiad cyfalaf gwerth £13.2m yn 2021-22. Mae Chwaraeon Cymru wedi sefydlu Grwpiau Buddsoddiadau Cyfalaf Strategol yn ddiweddar i ddatblygu cynllun strategol i gyfeirio a blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau yn y prosiectau hynny sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Cynhaliodd Chwaraeon Cymru gynllun peilot llwyddiannus ar gyfer menter gyllido newydd y llynedd, Crowdfunder. Mae'r gronfa hon, sy'n parhau eleni, yn targedu cymunedau difreintiedig yn anghymesur, drwy ddarparu cyllid ar ganran uwch i'r clybiau hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'r ffrwd fuddsoddi newydd hon yn ffordd wych o annog cydlyniant cymunedol ac yn uwchsgilio'r rhai sy'n ymwneud â'r clwb cymunedol am fod cymorth yn cael ei roi drwy'r broses gan staff Chwaraeon Cymru a Crowdfunder.
15. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol ar lefel fyd-eang er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a chefnogi ein hathletwyr a'n hyfforddwyr talentog, lle bynnag y maent yn byw ac o ba gefndir bynnag y maent yn dod. Rydym eisoes wedi cael deialog gadarnhaol ac adeiladol gyda rhai o'n partneriaid cenedlaethol ynglŷn â chyflawni'r amcanion hynny gyda'n gilydd.

16. Mae Chwaraeon Cymru wedi darparu symiau sylweddol o gyllid i lawer o wahanol gampau ledled Cymru. Mae llawer o enghreifftiau mewn amrywiaeth o gampau, o welliannau i gaeau yng Nghlwb Rygbi Gwernnyfed a Chlwb Pêl-droed Tref Dinbych; i gyrtiau tennis newydd yng Nghas-gwent a galluogi mynediad i bobl anabl yng Nghlwb Bowliau Beechwood yng Nghasnewydd. Mae rhwydi ymarfer newydd ar gyfer Clwb Criced Sir Benfro, cyfarpar newydd ar gyfer Clwb Canwio Bala a matiau newydd ar gyfer Clwb Ju-Jitsu Brasil yn Ystradgynlais. Hefyd, bydd parciau dysgu beicio ym Mharc Cwm Dâr a Pharc Coffa Wattstown yn adfywio tir a ddefnyddiwyd at ddibenion eraill yn flaenorol, a'u troi'n ardaloedd i blant ifanc ddysgu sut i fynd ar gefn beic, annog addysgu plant sut i feicio, yn ogystal â hanfodion diogelwch ar y ffordd.
17. Dylem hefyd gydnabod bod Llywodraeth y DU hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon bellach. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu mynd ati i danseilio datganoli drwy wneud penderfyniadau ar faterion datganoledig, gan gynnwys chwaraeon, gyda chyhoeddiadau am gyllid ar gyfer tennis a phêl-droed yn enghreifftiau diweddar. Mae'r pwerau cymorth ariannol a ddarparwyd yn Neddf Marchnad Fewnol y DU yn caniatáu i Weinidogion y DU wneud penderfyniadau ar faterion datganoledig heb fandad a heb unrhyw atebolrwydd i'r Senedd a'i phwyllgorau. Nid yw Llywodraeth y DU, wrth weithredu, yn ystyried y cyd-destun deddfwriaethol y mae'n cyfeirio cyllid cyhoeddus ynddo ac nid oes unrhyw waith yn cael ei wneud i atal dyblygu. Mae hefyd yn aneglur sut y bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod prosesau archwilio wedi'u bodloni mewn modd sy'n galluogi atebolrwydd priodol a sut y bydd Senedd Cymru yn craffu ar wariant mewn meysydd datganoledig. Mae'r dull gweithredu digyswllt hwn yn fygythiad i ddatganoli lle ceir risg o ganlyniadau nad ydynt yn rhoi gwerth am arian o ganlyniad i ddatblygu polisi heb wybodaeth ddigonol. Mae'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn mynd ati i sicrhau ffyniant bro yn golygu y bydd gan Gymru lai o ddylanwad dros lai o arian ac rydym yn pryderu o hyd am fethiant Llywodraeth y DU i flaenoriaethu angen yn ei methodolegau a'i dyraniadau. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fudd amlwg i Gymru o ganlyniad i ffyniant bro gan fod cronfeydd strwythurol yr UE yn cael eu disodli gan lai o gyllid gyda model mwy anraddoledig a chanolog sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Whitehall. Bydd y ffactorau hyn yn sicrhau bod llai o arian yn cael ei dargedu lle y bo'i angen fwyaf.
18. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae'r portffolio chwaraeon hefyd yn gweithio gyda meysydd eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau'r canlyniadau gorau oll i chwaraeon a chael effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd chwaraeon a gynigir.
19. Mae chwaraeon yn chwarae rôl i ysbrydoli. Mae ein buddsoddiad ar lefel elî, drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf i gefnogi llwyddiant ein cenedl ar y llwyfan rhyngwladol ym myd chwaraeon, yn allweddol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Mae hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd posibl inni gynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, sydd, yn eu tro, yn ymestyn ein cyrhaeddiad byd-eang ac sy'n gallu annog cyfranogiad.
20. Rhaglen waith gydweithredol, sefydledig yw'r Gronfa Iach ac Egniol, sy'n cael ei chyd-reoli gan Lywodraeth Cymru (iechyd a chwaraeon), Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Chwaraeon Cymru yn rheoli'r rhaglen grantiau sydd wedi buddsoddi £5.9m mewn amrywiaeth o brosiectau ledled Cymru ers 2018 er mwyn treialu ffyrdd arloesol, newydd o gynyddu cyfranogiad mewn

gweithgarwch corfforol a gwella llesiant meddyliol pobl. Nod y prosiectau yw lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau a rhwystrau mewn amrywiol ffyrdd, o ddulliau garddio sy'n pontio'r cenedlaethau, annog teuluoedd i fod yn egnïol gyda'u babanod newydd-anedig, i gynyddu gweithgareddau corfforol a chymdeithasol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Ceir prosiectau eraill sy'n ceisio helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl i fabwysiadu ffordd o fyw annibynnol ac egnïol yn yr hirdymor, ac un sy'n defnyddio atgofion chwaraeon i helpu pobl â dementia.

21. Mae strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru yn nodi ein cynlluniau, dros gyfnod o ddeng mlynedd, i drawsnewid y ffordd y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn bywyd pob dydd sy'n effeithio ar ein pwysau a'n llesiant. Ymhlith yr ymyriadau a gefnogir drwy'r Cynllun Cyflawni mae Cynllun Hamdden Egnïol i bobl dros 60 oed, a ariennir gan Chwaraeon Cymru, sy'n canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd ac sy'n gweithio drwy ganolfannau hamdden er mwyn sicrhau mwy o allgymorth. Rydym hefyd yn parhau i gyflwyno ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae hwn wedi parhau i addasu i gynig cyfleoedd ychwanegol drwy opsiynau digidol a gweithgareddau awyr agored. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi yn y Fenter Nofio am Ddim a'r Cynllun Nofio am Ddim i'r Lluoedd Arfog er mwyn rhoi mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc, pobl 60 oed a hŷn a chyn-aelodau ac aelodau o'r lluoedd arfog. Mae'r Fenter Nofio am Ddim hefyd yn cefnogi ein hymdrechion cenedlaethol i roi sgiliau bywyd pwysig i blant a phobl ifanc drwy'r elfen 'dysgu sut i nofio' o'r ddarpariaeth.
22. Gall cyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n cael eu gweithredu gan y gymuned hefyd chwarae rhan bwysig i rymuso pobl leol, gan ddarparu swyddi lleol yn ogystal â chyfleoedd i gymdeithasu – sy'n mynd i'r afael ag unigedd a theimlo'n ynysig a gwella iechyd a llesiant yn gyffredinol. Mae cyllideb o £6.5m wedi cael ei dyrannu ar gyfer Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn 2022-23. Nod ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yw gwella cyfleusterau cymunedol, sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac sy'n cael eu defnyddio ganddynt. Mae cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon, yn chwarae rôl hollbwysig, gan roi ffocws i ddigwyddiadau cymunedol, drwy roi cyfleoedd i wirfoddoli a mynediad lleol i wasanaethau. Gall hyn fod hyd yn oed yn bwysicach mewn ardaloedd gwledig. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd hyd yma y flwyddyn hon wedi cefnogi Clwb Bowliau Garnddifaith, Boxing Community Action a Chlwb Hwyllo Merthyr Tudful.
23. Mae'r ystad addysg, drwy ein hysgolion a'n colegau, hefyd yn llwyfan pwysig ar gyfer ein cyfleusterau chwaraeon. Mae ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn chwarae rôl bwysig o ran darparu cyfleusterau chwaraeon. Mae'r rhaglen yn ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i ysgolion a cholegau yng Nghymru gefnogi ein dysgwyr a chymunedau yn fwy cyffredinol. Ein dyhead yw bod pob cyfleuster sy'n cael buddsoddiad yn ymrwymo i ddarparu asedau at ddefnydd y gymuned lle y bo galw lleol. Mae hyn wedi arwain at ddarparu cyfleusterau chwaraeon ardderchog sydd o fudd i bob grŵp oedran, megis yn Ysgol Bro Teifi yn Llandysul, Ceredigion. Mae hon yn ysgol 3 - 19 oed cyfrwng Cymraeg newydd sydd wedi symleiddio darpariaeth addysg yn yr ardal er mwyn

cefnogi dysgwyr o oedran cynradd hyd at addysg uwchradd ac yn sicrhau bod ei chyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys cae pob tywydd a neuadd chwaraeon, ar gael yn hwylus i'r gymuned gyfagos y tu allan i oriau'r diwrnod ysgol. Rydym yn disgwyl i bob prosiect sy'n cael cymorth ariannol ddangos sut y gall ei gyfleusterau ysgol gefnogi'r gymuned gyfagos. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y defnydd o asedau ffisegol megis cyfleusterau chwaraeon at ddefnydd y gymuned, yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddynt. Mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod cydgysylltu o ran sut mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ac rydym yn buddsoddi yn y seilwaith teithio llesol ledled Cymru gyda chyllid o £220m yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol.

Casgliad a'r camau nesaf

24. Mae sicrhau mynediad cyfartal i chwaraeon yn un o ymrwymadau allweddol Llywodraeth Cymru, sy'n mynd i'r afael â hynny ac yn ei gefnogi mewn sawl ffordd wahanol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw'n rhywbeth y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain, ac y bydd angen inni weithio'n agos gyda'r teulu chwaraeon ehangach a rhanddeiliaid allweddol megis awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i wneud rhagor o gynnydd.
25. Wrth inni barhau i adfer yn sgil y pandemig ac wrth inni fynd i'r afael â heriau ehangach, megis yr argyfwng costau byw, bwriadwn gynnal Uwchgynhadledd Chwaraeon yn ddiweddarach eleni gyda ffocws allweddol ar ystyried sut y gall chwaraeon ysgogi mwy o gyfranogiad yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'n grwpiau anos eu cyrraedd. Bydd yr Uwchgynhadledd hon yn anelu at adeiladu ar yr ysbryd gydweithredol wych a welsom pan oedd y pandemig ar ei anterth ac at feithrin cydberthnasau a phartneriaethau newydd. Gobeithiwn y bydd gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn yn helpu i lywio'r flaenraglen waith honno a dylanwadu arni.

Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Mehefin 2022